

## Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg

### Cylch gwaith y pwyllgor:

1. Trafod materion strategol gan gyfrannu tuag at strategaeth iaith sirol 5 mlynedd sy'n mynd i'r afael ag adfer y Gymraeg fel prif iaith y sir. (Safon Hybu o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg).
2. Cydgynllunio a thargedu adnoddau partneriaid yn ôl angen lleol am ddatblygiad cynllunio iaith yn y sir.
3. Datblygu prosiectau sirol neu lleol i wireddu amcanion y strategaeth iaith gan gynnwys:
  - Adnabod a gweithredu cyfleon gweithredu ar y cyd ar draws y sir gan gynnwys ymgeisio am brosiectau sirol ar y cyd.
4. Gweithredu ar y cyd i gryfhau capasiti Cynllunio iaith o fewn yr aelodau gan gynnwys:
  - Trefnu hyfforddiant / seminarau ar y cyd
  - Adnabod a gweithredu cyfleon i rannu costau, adnoddau a staff er mwyn sicrhau effeithlonrwydd

### Aelodaeth

Bydd cynrychiolwyr strategol o'r sefydliadau a'r mudiadau isod:

Canolfan Cymraeg i Oedolion	Llywodraeth Cymru
Clybiau Ffermwy'r Ifanc	Menter Bro Dinefwr
Clybiau Gwawr	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Coleg Sir Gâr	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cymdeithas yr Iaith	Merched y Wawr
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol	Mudiad Meithrin
Sir Gâr	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Cyngor Sir Gâr	TWF
Dyfodol i'r Iaith	Urdd Gobaith Cymru
Estyn Llaw	

Dylid trefnu eilyddion ar gyfer y cyfarfodydd.

Adolygir y cylch gorchwyl yn flynyddol.

- Bydd y pwyllgor yn dewis cadeirydd. Bydd y gadeiryddiaeth yn newid yn flynyddol
- Y Cyngor Sir fydd yn gweinyddu'r fforwm drwy'r tîm Polisi a Phartneriaeth am y flwyddyn gyntaf
- Bydd y pwyllgor yn cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn
- Bydd hyblygrwydd i'r pwyllgor wahodd swyddogion / partneriaid eraill yn ôl yr angen
- Gall y Pwyllgor sefydlu is-grwpiau yn ôl yr angen